

Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd **Prifysgol De Cymru**

Mae Prifysgol De Cymru (PDC) yn sefydliad pwysig ym maes addysg uwch y DU gyda champysau yng Nghaerdydd, Pontypridd a Chasnewydd. Fel prifysgol fawr, rydym yn ymwybodol o'r effaith carbon sylweddol y gallwn ei chael ar yr ardaloedd lleol lle mae ein campysau, yn ogystal â'r effaith ranbarthol a byd-eang a grëwn o'n gweithrediadau. Mae datgarboneiddio yn cael ei gydnabod fel gofyniad hanfodol i weithredu a chynnal amgylchedd prifysgol cynaliadwy i bawb. Mae gan y brifysgol, fel pob sefydliad, gyfrifoldeb i fynd i'r afael â datgarboneiddio a chyrraedd targedau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod hyn, ac rydym yn gweithio i leihau ein hallyriadau carbon lle bynnag y bo modd.

Mae'r Brifysgol o ddifri ynghylch ei chyfrifoldebau amgylcheddol ac mae wedi ymrwymo i gyflawni carbon sero net erbyn 2040. Er mwyn cyrraedd y targed uchelgeisiol hwn, datblygwyd strategaeth carbon ddeng mlynedd a map ffordd hyd at 2030 i ddarparu camau clir, ymarferol a chost-ffeithiol i hyrwyddo cynaliadwyedd o fewn ein harweinyddiaeth a'n llywodraethiant, ein hystâd a'n gweithrediadau, ein hymchwil a'n haddysgu, a'n partneriaethau. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddilyn y strategaeth carbon a'r map ffordd wrth i ni ddechrau ar ein taith i ddatgarboneiddio. Mae ein 6 nod strategol dros y 10 mlynedd nesaf fel a ganlyn:

1. Gweithio gyda'n cyflenwyr i herio effeithlonrwydd eu cadwyni cyflenwi
2. Lleihau ein hallyriadau carbon cwmpas 1 a 2 absoliwt gan 50% erbyn 2030
3. Lleihau cyfanswm ein gwastraff gan 26% erbyn 2030 ac ailgylchu o leiaf 70% o'n gwastraff erbyn 2025
4. creu'r prosesau sydd eu hangen i gofnodi a mesur data cymudo staff a myfyrwyr erbyn 2023/24
5. Lleihau ein defnydd o ddŵr gan 10% erbyn 2030
6. Datblygu cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol i roi cyhoeddusrwydd i'n cynnydd a diweddarau ein rhanddeiliaid

Er mwyn cyflawni'r targedau hyn, mae'r Brifysgol yn ymrwymo at yr amcanion eang canlynol:

Cyffredinol

- Sefydlu pwyllgor cynaliadwyedd a grwpiau ffocws i weithredu mentrau amgylcheddol a sicrhau bod cynaliadwyedd wedi ei wreiddio ymhob rhan o'r sefydliad

- Gosod a chyhoeddi targedau amgylcheddol a monitro cynnydd yn erbyn y rhain yn flynyddol
- Rhoi hyfforddiant amgylcheddol i'r staff a'r myfyrwyr i gyd

Adeiladu ac Adnewyddu

- Sicrhau bod cynaliadwyedd yn ystyriaeth ddylunio allweddol o ran ffabrig adeiladu a'u dyluniad peirianegol yn ystod unrhyw brosiectau adeiladu, adnewyddu a dymchwel.
- Creu polisïau cynnal a chadw/adnewyddu sy'n ystyried effaith y gwaith ar yr amgylchedd e.e. llygryddion mewnol adeiladau, rhewyddion, gwastraff ac ati.
- Sicrhau bod ein gwaith cynnal a chadw tir yn ategu ein huchelgais i wella bioamrywiaeth

Allyriadau a gollyngiadau

- Lleihau risg llygredd, a lleihau ei effaith drwy reoli ein hallyriadau, cyflawni'r gofynion statudol sydd arnom a rhoi gweithdrefnau ymateb brys ar waith drwy ein timau lechyd a Diogelwch.

Cynnwys y Gymuned

- Cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cadarn a rheolaidd sy'n cynnwys cymuned y brifysgol ac yn annog gwelliannau amgylcheddol
- Ymgysylltu â'n partneriaid, cymdogion, awdurdodau lleol, cyflenwyr a'n holl randdeiliaid perthnasol o ran ein huchelgais a'n cyfleoedd i gydweithio i leihau ein heffaith
- Adnabod a hyrwyddo mentrau ar gyfer cynnwys egwyddorion cynaliadwyedd o fewn gwaith datblygu'r cwricwlwm.

Bioamrywiaeth

- Cynyddu'r nifer o goed sy'n cael eu plannu a chyfleoedd ar gyfer tyfu mwy o blanhigion ar ein campysau
- Cynnal, adolygu a diweddarau ein cynllun gweithredu bioamrywiaeth a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol ar ein campysau
- Integreiddio bioamrywiaeth ym mhob prosiect cyfalaf ac adnewyddu mawr lle bo cyfle

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

- Anelu at ymgorffori cynaliadwyedd yn ein haddysgu, ein dysgu a'n hymchwilio a thrwy'r cwricwlwm cyfan.
- Ymgysylltu â'r GGSau a'u hymgorffori yn y gwaith o ddylunio a chyflwyno Egwyddorion Cwricwlwm 2030 PDC.

Rheoli gwastraff

- Parhau i wella ein rhaglenni lleihau gwastraff ac ailgylchu

- Cynyddu ailddefnyddio adnoddau a nodi cyfleoedd i osgoi creu gwastraff

Teithio a Thrafnidiaeth

- Cynnal arolygon blynyddol i ddeall arferion cymudo
- Annog teithio llesol a charbon isel i/o/rhwng pob un o'n campysau gan gynnwys cerdded, beicio, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus a rhannu ceir
- Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan a disodli ein fflyd gyda cherbydau carbon isel
- Ystyried teithio rhwng campysau a thrydaneiddio ein gwasanaeth bws gwennol • Ystyried opsiynau ar gyfer lleihau'r angen i deithio


Caffael cynaliadwy

- Gweithio gyda'r cyflenwyr sydd â'r effaith fwyaf i greu adroddiadau carbon mwy cywir a nodi cyfleoedd i leihau ein hallyriadau
- Datblygu strategaeth a dull o gynnwys cynaliadwyedd ym mhob tendr yn y dyfodol
- Datblygu proses brynu a fydd yn ystyried effaith cynnyrch/gwasanaeth ar yr amgylchedd ac yn rhoi blaenoriaeth cyn belled ag sy'n ymarferol i'r cynhyrchion/gwasanaethau hynny sy'n achosi'r niwed lleiaf

Ynni a Dŵr

- Lleihau defnydd ynni a dŵr drwy archwiliadau, monitro a thargedau ynni
- Caffael 100% o'n trydan o ffynonellau adnewyddadwy ledled ein hystâd
- Cynyddu nifer y cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ein campysau ac ystyried opsiynau ar gyfer cynhyrchu/cyflenwi oddi ar y safle
- Adnabod cyfleoedd ar gyfer gwres carbon isel
- Cynnal astudiaethau dichonoldeb i nodi cyfleoedd i leihau ein cyfleustodau a gweithredu rhaglen waith i gyflawni hyn

Mae'r polisi hwn yn cael ei gyfleu'n fewnol ac yn allanol drwy'r tudalennau gwe cynaliadwyedd a bydd ar gael i bobl sy'n gweithio ar ran yr adran Ystadau a Chyfleusterau trwy weithgareddau diogelwch y broses sefydlu. Bydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn.



Llofnod: _____

22/06/23

Dyddiad: _____

Mike Bessell
Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau

Fersiwn: 1.1
Dyddiad Cyhoeddi: 19 Mehefin 2023
Dyddiad adolygu nesaf: 1 Mehefin 2027